# Atodiad 2: Opsiynau Gorfodi i Fynd i'r Afael ag Eiddo Gwag

Mae'r brif ddeddfwriaeth a ddefnyddir i ymdrin â chartrefi gwag drwy gamau gorfodi fel a ganlyn:

### Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Gellir cyflwyno hysbysiadau atal o dan adran 80 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn perthynas â niwsansau statudol a achosir gan adeiladwaith eiddo neu dir cysylltiedig.

### Deddf Atal Difrod Gan Blâu 1949

Mae adran 4 o Ddeddf Atal Difrod gan Blâu 1949 yn galluogi'r cyngor i gyflwyno hysbysiadau i berchennog neu feddiannydd y tir i sicrhau bod y safle yn rhydd o gnofilod.

### Deddf Adeiladu 1984

Gellir defnyddio Deddf Adeiladu 1984 i ymdrin â sawl sefyllfa wahanol lle mae adeilad yn ddiffygiol neu beryglus neu lle mae eiddo mewn cyflwr adfeiliedig sy'n niweidiol iawn i fwynderau'r gymdogaeth.

### Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982

Mae adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn galluogi'r cyngor i wneud gwaith ar eiddo gwag i'w ddiogelu rhag mynediad anawdurdodedig.

### Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Pan fo perchennog yn methu â chynnal ei eiddo a bod ei gyflwr yn cael ei ystyried yn niweidiol i fwynderau'r gymdogaeth, gall yr awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad i'r perchennog yn ei gwneud yn ofynnol i waith gael ei wneud i wella ei olwg.

### Deddf Tai 2004, Rhan 1: System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai

Mae Deddf Tai 2004 yn nodi gofyniad am archwiliad tai a chwblhau System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, sef asesiad risg o 29 o beryglon diffiniedig y gellir eu canfod mewn eiddo.

### Deddf Cyfraith Eiddo 1925: Gwerthu Gorfodol

Lle mae arwystl ariannol o dros £500 yn ddyledus am waith sydd wedi'i wneud yn ddiofyn yn dilyn cyflwyno rhai hysbysiadau cyfreithiol a nodir uchod, ac a gofnodwyd ar y Gofrestr Pridiannau Tir Lleol, gall yr awdurdod lleol gymryd camau o dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 i orfodi'r gwerthiant i adennill ein dyledion.

### Deddf Tai 1985: Gorchmynion Prynu Gorfodol

Mae adran 17 o Ddeddf Tai 1985 yn galluogi awdurdodau lleol i brynu eiddo yn orfodol er mwyn darparu llety a thai.

### Deddf Tai 1985: Gorchmynion Dymchwel

Mae adran 265 o Ddeddf Tai 1985 yn caniatáu i'r awdurdod lleol wneud gorchymyn dymchwel.

### Deddf Tai 2004: Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag

Mae Rhan 4, Pennod 2, o Ddeddf Tai 2004 yn caniatáu i'r awdurdod lleol, ar ôl cael ei gymeradwyo gan Dribiwnlys Eiddo Preswyl annibynnol, i reoli eiddo o ddydd i ddydd gyda'r bwriad o gymryd camau i sicrhau bod yr eiddo'n cael ei feddiannu ac yn parhau i gael ei feddiannu. Mae gorchymyn rheoli anheddau gwag yn rhoi meddiant o'r eiddo i'r awdurdod lleol heb iddo ddod yn berchen arno.

DRAFT

DRAFT